OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 452 (Cy.43)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*24 Chwefror 2004*
Yn dod i rym - -	*25 Chwefror 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 12 a 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 25 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i anheddau yng Nghymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau 1998" yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998(**2**).

Diwygiadau i Reoliadau 1998

3. Mae Rheoliadau 1998 yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

(1) Yn rheoliad 2, ar ôl y diffiniad o "Class B", mewnosodwch y canlynol —

""Class C" means the class of dwellings described in regulation 5A;".

(2) Yn rheoliad 3 Rhif wch y geiriad presennol yn baragraff (1) ac ar ôl y paragraff hwnnw mewnosodwch —

"(2) Class C is prescribed as a class of dwellings for the purposes of section 12 of the Act for each financial year beginning on or after 1st April 2004.".

(3) Ar ôl diwedd rheoliad 5 mewnosodwch y canlynol —

(**1**) 1992 p.14. Amnewidiwyd adran 12 gan adran 75(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae adran 113(1) wedi'i diwygio gan adran 127(1) o'r Ddeddf honno a pharagraffau 40, 52(1) a 52(2) o Atodlen 7 iddi.

(**2**) O.S. 1998/105. *Gweler* adran 75(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ar gyfer effaith barhaol y Rheoliadau hyn.